O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2380 (Cy.253)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Gwahanol Fannau rhwng Llangurig ac Eisteddfa Gurig, Powys) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *26 Medi 2011*

Yn dod i rym *1 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A44) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Gwahanol Fannau rhwng Llangurig ac Eisteddfa Gurig, Powys) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 1 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A44 rhwng Llangurig ac Eisteddfa Gurig yn Sir Powys a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau (i) i (vi) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau (i) i (vi) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau (i) i (vi) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r gefnffordd, a bennir ym mharagraffau (i) i (vi) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, ar yr adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, sy'n 2.5 metr ei led neu'n lletach na hynny, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau (iii), (iv) a (vi) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.